Daearyddiaeth Safon Uwch

Bwrdd Arholi

CBAC

Crynodeb o'r Cwrs

Mewn byd sy'n troi yn "bentref" i bawb yn gyflym, mae Daearyddiaeth yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen. Ar y safon yma, mae'r pwnc yn delio â thestunau fel ffrwydrad poblogaeth y byd; newidiadau mewn dinasoedd a chefn-gwlad; amddiffyn yr amgylchedd; cynllunio ar gyfer trychinebau naturiol ar raddfa leol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd materion dynol, ffisegol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu trin, trafod a'u hymchwilio'n ddwys, fel y bydd yr unigolyn yn datblygu'r sgil o feddwl fel Daearyddwr/wraig

Mae Daearyddiaeth yn un o'r pynciau gorau o ran cynnig defnydd eang iawn o'r sgiliau allweddol sydd yn cael eu meithrin yn naturiol ar bob adeg. Dyma'r sgiliau:

- Cyfathrebu, Cymhwyso rhif; Datrys Problemau, Technoleg Gwybodaeth, Cydweithio, Gwella eich dysg a'ch perfformiad eich hun;
- Deall a dehongli mapiau a graffiau, defnyddio dulliau ystadegol syml; Datblygu'r sgil o ysgrifennu traethawd; Ymchwilio; Casglu a dethol data a gwybodaeth

Dull / Manylion Asesu

	UNED	CYNNWYS	ASESU
UG	Uned 1	Tirweddau sy'n Newid	Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
	Uned 2	Lleoedd sy'n Newid	Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
UWCH A2	Uned 3	Systemau Byd-eang a Rheolaeth Fyd-eang	Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
	Uned 4	Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth	Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
	Uned 5	Ymchwiliad annibynnol	Asesiad heb arholiad: 3000-4000 o eiriau

Llwybrau Dilyniant / Gyrfaol

Mae Daearyddiaeth yn un o'r ychydig bynciau sydd yn arwain at radd gelfyddydol neu wyddonol (BA neu BSc). Gall agor drysau i yrfaoedd mewn amrywiaeth o feysydd sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pwnc yn ogystal â rhai llai amlwg megis cynllunio dinas a rhanbarth, gwaith cymdeithasol, meteoroleg, teithio a thwristiaeth, hydroleg (afonydd), yr amgylchedd, amaethyddiaeth, gweithio i'r llywodraeth, addysg, cyfrifiaeth ayyb. Y mae'n bwnc sy'n addas ar gyfer pob math o swyddi, gan ei fod yn meithrin amrywiaeth o sgiliau trawsnewidiol o fewn y dosbarth, gan baratoi myfyrwyr at y byd. Mae'r strwythur Lefel A yma yn paratoi myfyrwyr yn dda iawn at waith ymchwil, cyfathrebu a thrafod testunau ac agweddau dadleuol sydd yn y pwnc a mynegi barn; sgiliau allweddol i rywun sydd am astudio gradd mewn Daearyddiaeth. Cyniga'r rhan fwyaf o brifysgolion raddau Daearyddiaeth (BSc/BA) sengl neu a chyfun ac mae darpariaeth gynyddol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pwnc yn cyfuno'n dda gyda'r rhan fwyaf o bynciau Safon Uwch eraill.

Geography – A Level

Examination Board

WJEC

Course Summary

In a world fast becoming a global village, Geography is more relevant than ever. The subject at A Level deals with ideas sourcing from population explosion; changes in city and rural life, protecting the environment, planning for natural disasters, climate change and much more. The economic, cultural, physical, human and environmental factors affecting these subjects will be researched and discussed, which will develop the student to think as a Geographer.

Geography introduces and uses a vast array of skills. It is considered as one of the best subjects where skills are developed throughout. The skills:

- Communication; Numeracy; Problem Solving; Information Technology; Teamwork; Improving one's own learning
- Cartographic Skills; Using simple equations; Essay writing ; Research; Data collection and analysis

Assesment Details / Methods

	UNIT	CONTENT	ASSESSMENT
AS	Unit 1	Changing Landscapes	Written examination: 2 hours
	Unit 2	Changing Places	Written examination: 1 hour 30
A	Unit 3	Global Systems and Global Governance	Written examination: 2 hours
	Unit 4	Contemporary Themes in Geography	Written examination: 2 hours
	Unit 5	Independent Investigation	Non-exam assessment: 3000-4000 words

Progression Routes / Career

Geography is one of very few subjects which leads to either an Arts or a Science degree (BA. or BSc.). Its variety offers careers in many fields – city and regional planning; social work; meteorology; travel and tourism; hydrology; the environment; geology; volcanology, education, accountancy etc. It is a subject which serves as a good basis for all kinds of careers. Most universities offer Geography degree courses, as well as joint honours Degrees and there is an increasing availability of courses through the medium of Welsh. It links well with most other subjects the A Level structure will prepare the student well in researching, discussing and essay writing; excellent skills to nurture for higher education at university.